

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Hen Destament  
Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th



Darllenwch  
Ruth 1

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Ymddiried  
yn Nuw**

## Stori 1 Ruth

Amser maith yn ôl, roedd teulu yn byw ym Methlehem. Enw'r tad oedd Elimelech a'r fam, Naomi. Roedd ganddynt ddau o feibion. Pan ddaeth newyn mawr, symudodd y teulu i fyw i wlad o'r enw Moab.

**Llanwch y llythrennau sydd ar goll:-**

1. Enw mam y bechgyn oedd

**N** \_ \_ \_ \_ .

2. Pan oedd bwyd yn brin ym Methlehem, aethant i fyw ym


**M** \_ \_ \_ .

Cyn hir, bu farw Elimelech! Roedd Naomi'n drist iawn. Tyfodd ei bechgyn yn ddynion ac ym mhen amser, priododd y ddau. Orpa a Ruth oedd enwau eu gwraedd. Mewn byr amser, aeth y ddau ddyn ifanc yn sâl a bu'r ddau farw! Gadawyd Naomi ar ei phen ei hun gyda'i dwy ferch-yng-nghyfraith, Orpa a Ruth. Penderfynodd Naomi fynd yn ôl i Fethlehem. Aeth Ruth bob cam o'r ffordd gyda hi. Dyma ddywedodd hi wrth Naomi,

**“I ble bynnag yr ei di, fe af finnau.”**

**Lliwiwch y geiriau.**

O'r diwedd, daeth y ddwy i Fethlehem. Roedd popeth mor ddieithr a newydd i Ruth! Wyddai hi ddim eto fod gan Dduw gynllun mawr ar gyfer ei bywyd hi! Mae Duw yn eich caru chithau hefyd, ac mae Ef am i chi ymddiried Ynndo, fel y gwnaeth Ruth.





DARLLENWCH  
Ruth 2, 3 a 4

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Cynllun Duw** ar  
gyfer **Ruth**

## Stori 2 Ruth a Boas

Yn fuan ar ôl cyrraedd Bethlehem, aeth Ruth i chwilio am waith adeg y cynhaeaf yd. Cafodd waith mewn caeau oedd yn eiddo i ddyn cyfoethog o'r enw Boas. Merch o wlad bell oedd Ruth, ond bu Boas yn garedig iawn wrthi. Helpodd hi gyda'i gwaith.



**Rhowch ✓ ar ôl y brawddegau sy'n GYWIR, a X ar ôl y rhai sy'n ANGHYWIR.**

1. Roedd Ruth yn ddiog ac yn gwrthod gweithio. ....
2. Boas oedd perchennog y caeau lle'r oedd Ruth yn gweithio. ....
3. Gwnaeth Boas waith Ruth yn anodd iawn. ....

Cyn hir, priododd Boas a Ruth. Roedden nhw'n hapus iawn.

“Cymerodd **Boas Ruth yn wraig iddo.**”

Cafodd Boas a Ruth fabi bach o'r enw Obed yn rhodd gan Dduw. Roedd Naomi, oedd bellach yn hen wraig, yn caru'r bachgen bach a bu'n gofalu amdano. O mor hapus oedd hi! Tyfodd Obed yn ddyn pwysig. Flynyddoedd lawer wedyn, ei wŷr ef oedd y brenin enwog hwnnw, Dafydd.

Bu Duw'n dda iawn wrth Ruth. Rhoddodd hi ei ffydd yn Nuw, a wnaeth Ef mo'i siomi!



DARLLENWCH  
Samuel I

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Duw yn ateb  
gweddi**

### Stori 3 Hanna yn gweddio ar Dduw

Roedd gan Elcana ddwy wraig - Hanna a Peninna. Roedd Peninna yn fam i nifer o blant. Byddai hi'n aml yn chwerthin am ben Hanna ac yn gas wrthi am nad oedd gan Hanna blant.

Bob blwyddyn byddai Elcana a'i deulu yn mynd i Seilo i addoli'r Arglwydd. Yn ystod un ymweliad, roedd Hanna'n drist iawn oherwydd bod Peninna wedi dweud pethau cas wrthi. Ar ôl bwyta bwyd gyda'i theulu, penderfynodd Hanna fynd i weddio ar Dduw.

Wrth i Hanna weddio, eisteddai Eli, yr offeiriad, wrth y drws yn ei gwyllo. Roedd hi'n crio wrth iddi ddweud ei phroblem wrth yr Arglwydd. Gofynnodd Hanna i Dduw roi iddi fachgen bach ac addawodd y byddai'r bachgen hwnnw bob amser yn gwasanaethu'r Arglwydd.

**Pwy oedd yn gwyllo Hanna'n gweddio? E \_ \_ .**

Er bod gwefusau Hanna'n symud, ni fedrai Eli glywed sŵn geiriau. Credai ei bod hi'n feddw. Roedd hi'n siarad â Duw yn ei chalon!

Dywedodd Hanna wrth Eli nad oedd wedi meddwi, ond ei bod yn drist ac yn gofidio'n arw. Esboniodd sut y bu hi'n gweddio ar yr Arglwydd. Atebodd Eli,

**“Dos mewn heddwch a**

**rhoddod Duw iti**

**yr hyn a geisiaist Ganddo”.**

Beth amser yn ddiweddarach, ganwyd bachgen bach i Hanna. Atebodd Duw ei gweddi.





DARLLENWCH  
I Samuel 2 a 3

Mae'r stori hon  
yn sôn am:  
**Duw yn  
siarad â ni**


## Stori 4 Duw yn galw Samuel

Pan oedd Samuel yn ifanc iawn, aeth ei fam ag ef i Seilo i weld Eli, yr offeiriad, yn Nhŷ'r Arglwydd. Dywedodd Hanna wrth Eli iddi fod yno o'r blaen ac atgoffodd ef am ei gweddi i Dduw.

Unwaith eto, diolchodd Hanna i Dduw. Cadwodd ei haddewid i Dduw, drwy adael Samuel gydag Eli, er mwyn i'r bachgen wasanaethu Duw.

Ddylen ni fyth anghofio diolch i Dduw pan fydd Ef yn ateb ein gweddïau.

Un noson, pan oedd Eli a Samuel yn cysgu, galwodd yr Arglwydd enw Samuel. I ddechrau, credai Samuel mai Eli oedd yn ei alw,



felly rhedodd ato. Sylwedolodd Eli mai'r Arglwydd oedd yn galw ar Samuel. Felly, dywedodd Eli wrth Samuel, os câi ei alw eto, roedd i ddweud:

“Llefara, Arglwydd,  
mae dy was yn gwrando.”

Pan alwodd Duw ei enw am y pedwerydd tro, roedd Samuel yn barod ac atebodd yr Arglwydd. Rhoddodd Duw neges bwysig i Samuel. Fore trannoeth, adroddodd Samuel y neges honno wrth Eli. Wrth i Samuel dyfu'n ddyn, rhoddodd Duw fwy o negeseuon iddo ar gyfer pobl Israel. Gwyddai pawb mai proffwyd yr Arglwydd oedd Samuel a bod Duw gydag ef.

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---



---



---



---



---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn